



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

DRAFFT

Y Fframwaith Cymhwysedd ar gyfer Arolygwyr Adeiladau (FfCAA)

Nodyn Drafftio:

Mae is-ddeddfwriaeth yn cael ei datblygu ar hyn o bryd. Mae hyn yn arbennig o berthnasol i reoliadau i Ddeiliaid Dyletswydd / rheoliadau ar Benodi Personau a swyddogaethau a gweithgareddau dan gyfyngiadau.

Cynnwys

1. Cyflwyniad a chefnidir	3
2. Dosbarthiadau cofrestru	4
3. Trosolwg o fodel y FfCAA (a elwir hefyd yn “olwyn y FfCAA”)	16
4. Lefelau cymhwysedd	17
5. Fframwaith meysydd pwnc cymhwysedd y FfCAA	18
6. Tabl o Ofynion Cymhwysedd Sylfaenol	47

1. Cyflwyniad a chefnidir

Mae'r llywodraeth yn cyflwyno diwygiadau newydd ym maes diogelwch adeiladau yn sgil Tŵr Grenfell.

Bydd yn rhaid i weithwyr proffesiynol ym maes rheoli adeiladu a sefydliadau rheoli adeiladu yn y sector preifat gofrestru er mwyn gwneud gwaith rheoli adeiladu yng Nghymru. Bydd y broses gofrestru yn dechrau yn ystod tymor yr hydref 2023, a daw'r adrannau o Ddeddf Diogelwch Adeiladau 2022 (y Ddeddf) sy'n gysylltiedig â chofrestru i rym yn ystod tymor y gwanwyn 2024.

Yn unol ag adrannau 58C a 58D o'r Ddeddf, bydd Gweinidogion Cymru yn gwneud y canlynol:

- Sefydlu a chynnal cofrestr o arolygwyr adeiladau
- Darparu ar gyfer gwahanol ddosbarthiadau o arolygwyr adeiladau (er enghraifft, yn unol â chymwysterau neu brofiad)
- Cofrestru unigolyn fel arolygydd adeiladau, neu arolygydd adeiladau mewn dosbarth penodol, os byddant yn fodlon bod yr unigolyn yn bodloni'r meini prawf a bennir gennym

Bydd angen i weithwyr proffesiynol ym maes rheoli adeiladu gael datblygiad proffesiynol parhaus (DPP) er mwyn parhau i fod wedi'u cofrestru yn y dyfodol.

2. Dosbarthiadau Cofrestru

Ceir pedwar dosbarth cofrestru ar gyfer arolygwyr adeiladau unigol:

- Arolygydd Adeiladau Dosbarth 1 (Cyswllt/Cynorthwyol)
- Arolygydd Adeiladau Dosbarth 2 (Safonol)
- Arolygydd Adeiladau Dosbarth 3 (Adeiladau Cymhleth/Adeiladau Preswyl Uchel lawn)
- Arolygydd Adeiladau Dosbarth 4 (Rheolwr)

Rhaid i'r holl weithwyr proffesiynol ym maes rheoli adeiladu sy'n cyflawni'r rolau a ddisgrifir o dan y dosbarthiadau hyn, p'un a ydyn yn y sector cyhoeddus neu'r sector preifat a pha fathau bynnag o adeiladau neu brosiectau adeiladu y maent yn gweithio arnynt, gofrestru a chydymffurfio â'r cod ymddygiad er mwyn parhau yn y rôl honno. Gall unigolyn gofrestru mewn mwy nag un dosbarth, er enghraifft gall Arolygydd Adeiladau Dosbarth 2 (Safonol) neu Arolygydd Adeiladau Dosbarth 3 (Adeiladau Cymhleth/Adeiladau Preswyl Uchel lawn) hefyd gofrestru fel Arolygydd Adeiladau Dosbarth 4 (Rheolwr). Ni fydd cynnydd unigolion drwy'r dosbarthiadau o reidrwydd yn llinol, a gall Arolygydd Adeiladau Dosbarth 2 symud ymlaen i Ddosbarth 4 os bydd yn rheoli tîm nad yw'n delio ag Adeiladau Preswyl Uchel lawn.

Rhaid i gyrff rheoli adeiladu sicrhau bod staff neu gontractwyr sy'n cyflawni gweithgareddau rheoli adeiladu, neu sy'n eu cynghori ynghylch swyddogaethau rheoli adeiladu (fel y'u diffinnir mewn deddfwriaeth) wedi'u cofrestru yn y dosbarth priodol. Sefydliadau sy'n cyflawni swyddogaethau rheoli adeiladu yw cyrff rheoli adeiladu, h.y. Awdurdodau Lleol, Cymeradwywyr Rheoli Adeiladu Cofrestredig.

Mae Llywodraeth Cymru yn disgwyl y bydd yn ofynnol i unigolion wneud gwaith y tu allan i'w dosbarth cofrestru er mwyn parhau â'u datblygiad proffesiynol a chamu ymlaen yn eu gyrfaedd a symud ymlaen o un dosbarth cofrestru i'r llall. Dim ond o dan oruchwyliaeth person â chymhwysedd addas y gellir gwneud hyn.

Ar y tudalennau canlynol, nodir y gofynion manwl ar gyfer dangos cymhwysedd er mwyn i unigolyn gofrestru yn y dosbarthiadau hyn. Bydd rhai o'r union ofynion yn dibynnu ar y rôl benodol a gyflawnir gan yr unigolyn – rydym wedi nodi bod yr adrannau hyn yn rhai “dangosol”.

Arolygydd Adeiladau Dosbarth 1 (Cyswllt/Cynorthwyol)

Proffil

Mae'r dosbarth hwn yn addas ar gyfer unrhyw unigolyn sy'n gweithio ym maes rheoli adeiladu na all ddangos y cymwyseddau gofynnol i weithio heb oruchwyliaeth neu gofrestru yn un o'r tri dosbarth arall.

Mae hyn yn cynnwys newydd-ddyfodiaid, unigolion sy'n gweithio i gyrff rheoli adeiladu mewn rolau technegol cysylltiedig a myfyrwyr, prentisiaid neu hyfforddeion y bydd angen iddynt gyflawni dyletswyddau penodol ym maes rheoli adeiladu fel rhan o'u hyfforddiant galwedigaethol. Efallai y byddant yn cyflawni gweithgareddau dan gyfyngiadau ac yn rhoi cyngor ar swyddogaethau dan gyfyngiadau (fel y'u diffinnir yn ôl y gyfraith) o dan oruchwyliaeth. Neu, efallai y byddant yn cyflawni amrywiaeth gyfyngedig o'r rhain, ac yn gwbl gymwys i'w cyflawni, ond yn methu â dangos cymhwysedd yn yr amrywiaeth lawn o feysydd sy'n ofynnol er mwyn cofrestru mewn dosbarth arall.

Arolygydd Adeiladau Dosbarth 1 yw'r dosbarth lefel mynediad, lle mae angen y proffil sgiliau, gwybodaeth, profiad ac ymddygiad lleiaf i gofrestru. Bydd y llwybr mynediad, y disgwyliadau a'r galluedd yn amrywio'n fawr. Bydd angen i unigolion sydd am ddilyn gyrfa broffesiynol ym maes rheoli adeiladu gael cymorth i ennill cymhwyster academiaidd neu alwedigaethol perthnasol a chymorth ymarferol o ran profiad o weithgareddau a swyddogaethau rheoli adeiladu.

Gweithgareddau

Mae'n bosibl y bydd arolygwyr adeiladau Dosbarth 1 yn cyflawni gweithgareddau o dan oruchwyliaeth mewn amgylcheddau academiaidd ac yn y gweithle.

Bydd angen i'r rhai sy'n gobeithio symud ymlaen i Arolygydd Adeiladau Dosbarth 2 (Safonol) astudio'r holl feysydd pwnc gofynnol er mwyn ennill y cymhwysedd angenrheidiol. Rydym yn disgwyl y bydd yr amserlen ar gyfer cyflawni hyn yn amrywio i unigolion a byddem yn disgwyl i hyn gynnwys astudiaethau academiaidd a phrofiad galwedigaethol.

Bydd y gweithgareddau a gyflawnir yn cwmpasu'r holl brosesau deddfwriaethol a gweinyddol hyd at gymhwyster lefel 3 i ddechrau, cyn symud ymlaen drwy lefelau 4-6 o fewn fframwaith academiaidd. Er mwyn symud ymlaen y tu hwnt i lefel 3, bydd angen cyflawni gweithgareddau dan gyfyngiadau a rhoi cyngor ar swyddogaethau dan gyfyngiadau o dan oruchwyliaeth person â chymhwysedd addas nes y bydd yr unigolyn wedi dangos ei fod yn ddigon cymwys i weithredu'n annibynnol.

Atebolrwyddau

Gweithio o dan oruchwyliaeth ar dasgau dynodedig gan fod yn atebol i arolygydd adeiladau Dosbarth 2, 3 a/neu 4.

Sgiliau dangosol

Sgiliau TG effeithiol.

Yn gallu gweithio'n effeithiol fel unigolyn ac fel aelod o dîm.

Yn gallu meithrin yr amrywiaeth o sgiliau a fydd yn ofynnol i gofrestru fel Arolygydd Adeiladau Dosbarth 2 neu ddangos cymhwysedd yn yr amrywiaeth gyfyngedig o weithgareddau rheoli adeiladu y bydd yn eu cyflawni.

Enghreifftiau dangosol o wybodaeth/cymwysterau

Dim meini prawf gofynnol.

Lefelau profiad dangosol

Tystiolaeth o weithio tuag at fagu profiad perthnasol ym maes rheoli adeiladu neu brofiad yn yr amrywiaeth gyfyngedig o weithgareddau rheoli adeiladu y bydd yn eu cyflawni.

Mae'n bosibl y bydd newydd-ddyfodiaid i'r amgylchedd adeiledig, neu'r rhai sy'n gweithredu mewn rolau sy'n agos neu'n debyg i rolau arolygwyr adeiladau, hefyd yn gallu dangos profiad defnyddiol.

Y gallu i feithrin y sgiliau technegol a phersonol i gyflawni'r gweithgareddau a'r swyddogaethau rheoli adeiladu a sicrhau cymhwysedd a chydabyddiaeth broffesiynol.

Ymddygiadau dangosol

Gweithio'n briodol yn yr amgylchedd academiaidd ac yn y gweithle, gan ddilyn polisïau a gweithdrefnau'r cyflogwr fel unigolyn ac fel aelod o dîm.

Ymrwymiad i ddilyn cwrs astudio perthnasol.

Ymrwymiad i gydymffurfio â'r Cod Ymddygiad ar gyfer rheoli adeiladu.

Arolygydd Adeiladau Dosbarth 2 (Safonol)

Proffil

Mae arolygwyr adeiladau Dosbarth 2 yn edrych i weld a yw gwaith adeiladu yn cydymffurfio â Deddf Adeiladu 1984 (fel y'i diwygiwyd), Rheoliadau Adeiladu 2010 (fel y'u diwygiwyd) a deddfwriaeth, safonau a chanllawiau cysylltiedig â chymwys eraill. Gwnânt hyn drwy gynnal gwerthusiadau o gynlluniau a dogfennau eraill a chynnal arolygiadau.

Er mwyn cyflawni'r gweithgareddau dan gyfyngiadau a ddisgrifir mewn is-ddeddfwriaeth, a chynghori cyrff rheoli adeiladu sy'n cyflawni swyddogaethau dan gyfyngiadau, rhaid i unigolyn fod yn Arolygydd Adeiladau Dosbarth 2, 3 neu 4.

Gweithgareddau a Swyddogaethau

- Gwerthuso cynlluniau, lluniadau, manylebau (ac ati) er mwyn asesu cydymffurfiaeth â'r gyfraith a chysylltu â'r ceisydd/asiant
- Bwrw golwg dros gynlluniau diwygiedig a rhoi cyngor ynghylch a ddylid eu cymeradwyo yn unol â'r Rheoliadau Adeiladau neu eu gwrthod
- Cynnal arolygiadau
- Rhoi cyngor ar gyflwyno tystysgrifau terfynol/cwblhau, ar ôl cymryd pob cam rhesymol i sicrhau y cydymffurfiwyd â gofynion perthnasol y Rheoliadau Adeiladu
- Canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio a chymryd camau i sicrhau cydymffurfiaeth, gan gynnwys camau gorfodi a/neu ddychwelyd at yr ALI yn achos arolygydd adeiladau Dosbarth 2 sy'n gweithio i Gymeradwywr Rheoli Adeiladu Cofrestredig.
- Cysylltu â chleientiaid, contractwyr, aelodau o'r cyhoedd ac ymgylgoreion statudol
- Cynghori cyrff rheoli adeiladu sy'n cyflawni swyddogaethau dan gyfyngiadau, fel y'u diffinnir mewn deddfwriaeth

Atebolrwyddau

- Canfod, pennu a chymryd camau i sicrhau cydymffurfiaeth
- Rhoi cyngor cymwys i gyrff rheoli adeiladu a deiliaid dyletswydd
- Gweithredu o fewn eu cymhwysedd eu hunain, a chynnal y cymhwysedd hwnnw, gan helpu eraill i wneud yr un peth
- Canfod achosion o wrthdaro buddiannau a rhoi gwybod amdanynt er mwyn i gamau priodol gael eu cymryd
- Cydymffurfio â'r Cod Ymddygiad wrth wneud pob darn o waith

Sgiliau dangosol

- Datrys problemau a gwneud penderfyniadau
- Cadw cofnodion ac ysgrifennu adroddiadau
- Dadansoddi gwybodaeth
- Hyfedredd TG

- Sgiliau cyfathrebu, dylanwadu a rhyngpersonol
- Ymddygiad moesegol ac anwahaniaethol

Engbreiffiau dangosol o wybodaeth/cymwysterau

- Cymhwyster academaidd lefel 6 neu hyfforddiant proffesiynol/galwedigaethol cyfatebol
- Prosesau rheoli adeiladu
- Rheoliadau a deddfwriaeth
- Dogfennau cymeradwy, arferion gorau a chanllawiau
- Diogelwch tân/bywyd
- Iechyd a diogelwch
- Dylunio ac adeiladu
- Rheoli newid
- Ymrwymiad i'r Cod Ymddygiad

Lefelau profiad dangosol

- Asesu cydymffurfiaeth â Deddf Adeiladu 1984 (fel y'i diwygiwyd), Rheoliadau Adeiladu 2010 (fel y'u diwygiwyd) a deddfwriaeth, safonau a chanllawiau cysylltiedig â chymwys eraill
- Profiad blaenorol o weithio ar y mathau o adeiladau y byddant yn gweithio arnynt
- Arolygiadau
- Gwirio cynlluniau
- Datblygu amserlenni arolygu a'u rhoi ar waith
- Asesu diogelwch a risg
- Cymryd camau i sicrhau cydymffurfiaeth, gan gynnwys camau gorfodi a/neu ddychwelyd at yr ALI yn achos Arolygydd Adeiladau Dosbarth 2 sy'n gweithio i Gymeradwywr Rheoli Adeiladu Cofrestredig

Ymddygiadau dangosol

- Cydweithio
- Hyblyg a gwydn
- Arweinyddiaeth a gweld y darlun ehangach
- Parod i feithrin gwybodaeth a sgiliau ac ymrwymiad i ddatblygiad proffesiynol parhaus (DPP)
- Gwneud penderfyniadau effeithiol
- Cyfathrebu a dylanwadu
- Gweithredu ag uniondeb a pharch, ac yn unol â'r Cod Ymddygiad

Arolygydd Adeiladau Dosbarth 3 (Adeiladau Cymhleth/Adeiladau Preswyl Uchel iawn)

Proffil

Mae arolygwyr adeiladau cofrestredig yn edrych i weld a yw gwaith adeiladu yn cydymffurfio â Deddf Adeiladu 1984 (fel y'i diwygiwyd), Rheoliadau Adeiladu 2010 (fel y'u diwygiwyd) a deddfwriaeth, safonau a chanllawiau cysylltiedig â chymwys eraill. Gwnânt hyn drwy gynnal gwerthusiadau o gynlluniau a dogfennau eraill a chynnal arolygiadau.

Yr arolygwyr adeiladu cofrestredig hynny sydd â'r wybodaeth a'r profiad ychwanegol sy'n ofynnol i gyflawni'r gweithgareddau dan gyfyngiadau a ddisgrifir mewn is-ddeddfwriaeth ac i gynghori cyrff rheoli adeiladu sy'n cyflawni swyddogaethau dan gyfyngiadau mewn perthynas ag adeiladau cymhleth ac adeiladau preswyl uchel iawn yw arolygwyr adeiladau Dosbarth 3.

Gall adeiladau cymhleth olygu adeilad sy'n perthyn i unrhyw neu sawl grŵp diben a gaiff ei ddylunio, ei adeiladu a'i ddefnyddio mewn ffordd sy'n golygu na fydd y canllawiau statudol yn gwbl briodol o bosibl. Bydd angen defnyddio dulliau cydymffurfio amgen a'u hadolygu wedyn er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth foddhaol â'r gofynion perthnasol.

Mae i'r term adeilad preswyl uchel iawn yr ystyr a roddir i'r term HRB yn adran 31 o Ddeddf Diogelwch Adeiladau 2022

Gweithgareddau a Swyddogaethau

- Gwerthuso cynlluniau, lluniadau, manylebau (ac ati) ar gyfer adeiladau cymhleth/adeiladau preswyl uchel iawn er mwyn asesu cydymffurfiaeth â'r gyfraith a chysylltu â'r ceisydd/asiant
- Bwrw golwg dros gynlluniau diwygiedig ar gyfer adeiladau cymhleth ac adeiladau preswyl uchel iawn a rhoi cyngor ynghylch a ddylid eu cymeradwyo yn unol â'r Rheoliadau Adeiladau neu eu gwrthod
- Cynnal arolygiadau
- Rhoi cyngor ar gyflwyno tystysgrifau terfynol/cwblhau ar gyfer adeiladau cymhleth/adeiladau preswyl uchel iawn, ar ôl cymryd pob cam rhesymol i sicrhau y cydymffurfiwyd â gofynion perthnasol y Rheoliadau Adeiladu
- Canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio a chymryd camau i sicrhau cydymffurfiaeth, gan gynnwys camau gorfodi a/neu ddychwelyd at yr ALI yn achos arolygydd adeiladau Dosbarth 3 sy'n gweithio i Gymeradwywr Rheoli Adeiladu Cofrestredig ar brosiectau cymhleth.
- Cysylltu â chleientiaid, contractwyr, aelodau o'r cyhoedd ac ymgylgoreion statudol
- Cynghori cyrff rheoli adeiladu sy'n cyflawni swyddogaethau dan gyfyngiadau, fel y'u diffinnir mewn deddfwriaeth

Atebolrwyddau

- Canfod, pennu a chymryd camau i sicrhau cydymffurfiaeth
- Rhoi cyngor cymwys i gyrff rheoli adeiladu a deiliaid dyletswydd
- Gweithredu o fewn eu cymhwysedd eu hunain, a chynnal y cymhwysedd hwnnw, gan helpu eraill i wneud yr un peth
- Canfod achosion o wrthdaro buddiannau a rhoi gwybod amdanynt er mwyn i gamau priodol gael eu cymryd
- Cydymffurfio â'r Cod Ymddygiad wrth wneud pob darn o waith

Sgiliau dangosol

- Datrys problemau a gwneud penderfyniadau mewn perthynas ag adeiladau cymhleth/adeiladau preswyl uchel iawn
- Cadw cofnodion ac ysgrifennu adroddiadau mewn perthynas ag adeiladau cymhleth/adeiladau preswyl uchel iawn
- Dadansoddi gwybodaeth mewn perthynas ag adeiladau cymhleth/adeiladau preswyl uchel iawn
- Hyfedredd TG
- Sgiliau cyfathrebu, dylanwadu a rhyngpersonol
- Ymddygiad moesegol ac anwahaniaethol

Enghreifftiau dangosol o wybodaeth/cymwysterau

- Cymhwyster academiaidd lefel 6/cymhwyster cyfatebol ynghyd â gwybodaeth arbenigol am adeiladau cymhleth/adeiladau preswyl uchel iawn
- Prosesau rheoli adeiladu sy'n cyfeirio'n benodol at adeiladau cymhleth/adeiladau preswyl uchel iawn
- Deddfwriaeth berthnasol sy'n cyfeirio'n benodol at adeiladau cymhleth/adeiladau preswyl uchel iawn
- Dogfennau cymeradwy, arferion gorau a chanllawiau sy'n cyfeirio'n benodol at adeiladau cymhleth/adeiladau preswyl uchel iawn
- Diogelwch tân/bywyd
- Diogelwch adeiladu
- Systemau adeiladu
- Iechyd a diogelwch
- Dylunio ac adeiladu
- Rheoli newid
- Ymrwymiad i'r Cod Ymddygiad

Lefelau profiad dangosol

- Asesu cydymffurfiaeth â Deddf Adeiladu 1984 (fel y'i diwygiwyd), Rheoliadau Adeiladu 2010 (fel y'u diwygiwyd) a deddfwriaeth, safonau a chanllawiau cysylltiedig â chymwys eraill mewn perthynas ag adeiladau cymhleth/adeiladau preswyl uchel iawn

- Profiad blaenorol o weithio ar y mathau o adeiladau cymhleth/adeiladau preswyl uchel iawn y byddant yn gweithio arnynt
- Arolygiadau
- Gwirio cynlluniau
- Datblygu amserlenni arolygu ar gyfer adeiladau cymhleth/adeiladau preswyl uchel iawn a'u rhoi ar waith
- Asesu diogelwch a risg ar gyfer adeiladau cymhleth/adeiladau preswyl uchel iawn
- Cymryd camau i sicrhau cydymffurfiaeth, gan gynnwys camau gorfodi a/neu ddychwelyd at yr ALI yn achos arolygydd adeiladau Dosbarth 3 sy'n gweithio i Gymeradwywr Rheoli Adeiladu Cofrestredig ar waith cymhleth

Ymddygiadau dangosol

- Cydweithio
- Hyblyg a gwydn
- Arweinyddiaeth a gweld y darlun ehangach
- Parod i feithrin gwybodaeth a sgiliau ac ymrwymiad i ddatblygiad proffesiynol parhaus (DPP)
- Gwneud penderfyniadau effeithiol
- Cyfathrebu a dylanwadu
- Gweithredu ag uniondeb a pharch, ac yn unol â'r Cod Ymddygiad

Arolygydd Adeiladau Dosbarth 4 (Rheolwr)

Proffil

Mae rôl Arolygydd Adeiladau Dosbarth 4 (Rheolwr) yn cynnwys cyfrifoldeb am brosesau gweinyddol a thechnegol sy'n gysylltiedig â sicrhau amgylchedd adeiledig diogel a chynaliadwy. Mae hyn yn cynnwys:

- Rheoli swyddogaeth/tîm rheoli adeiladu sy'n gallu cymryd rhan mewn ymgynghoriadau cyn cyflwyno, dilysu ceisiadau sy'n cynnwys ffioedd, y broses asesu cynllunio hyd at benderfyniad, creu amserlenni arolygu a chyflawni'r materion hyn o'r cam cysyniad i'r cam cwblhau ac ardystio
- Rheoli a goruchwyllo'r gweithdrefnau gorfodi ar gyfer y swyddogaeth/tîm rheoli adeiladu a'r camau gorfodi a gymerir gan y swyddogaeth/tîm rheoli adeiladu
- Cyflawni swyddogaeth rheoli adeiladu yn effeithiol er mwyn sicrhau bod deiliaid dyletswydd yn cydymffurfio â phob agwedd berthnasol ar Ddeddf Adeiladu 1984 (fel y'i diwygiwyd), Rheoliadau Adeiladau 2010 (fel y'u diwygiwyd) a deddfwriaeth a chanllawiau cysylltiedig, a chymryd camau gorfodi mewn perthynas â'r agweddau hynny lle bo angen, ar gyfer pob math perthnasol o adeilad.
- Sicrhau bod aelodau eu timau, gan gynnwys arolygwyr adeiladau Dosbarth 2 a Dosbarth 3, yn gymwys ac ond yn gweithredu yn unol â'u cymhwysedd ac yn unol â'r Cod Ymddygiad.

Yr unigolion hynny sydd, yn ogystal â meddu ar y cymhwysedd angenrheidiol i gofrestru fel arolygydd adeiladau Dosbarth 2 neu Ddosbarth 3, yn gyfrifol am reoli swyddogaeth/tîm rheoli adeiladu ac sydd am i'w cofrestriad adlewyrchu hynny yw Arolygwyr Adeiladau Dosbarth 4.

Gweithgareddau

- Gwneud a dilysu ceisiadau sy'n gysylltiedig â'r Ddeddf Adeiladu, y Rheoliadau Adeiladu a Thaliadau a Ffioedd
- Creu, monitro ac archwilio polisïau technegol a gweithdrefnau safonol sy'n gysylltiedig â blaenoriaethu mewn perthynas ag asesu cynlluniau a threfniadau arolygu
- Ystyried a gwneud ceisiadau ar gyfer penderfyniadau, yn unol ag Adran 30 o'r Ddeddf Adeiladu (fel y'i diwygiwyd), a gofeddebau, yn unol ag Adran 11 o'r Ddeddf Adeiladu (fel y'i diwygiwyd), os bydd hynny'n briodol.
- Sefydlu trefniadau arolygu a dyrannu'r arolygiadau hynny i'r arolygydd priodol a monitro cofnodion perfformiad a chymryd camau gorfodi fel y bo'n briodol er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth â'r Rheoliadau Adeiladu a'r deddfwriaeth gysylltiedig
- Monitro'r arolygiadau a gynhelir a chyflwyno tystysgrifau terfynol/cwblhau pan gadarnheir bod y gwaith yn cydymffurfio â'r Rheoliadau Adeiladu

- Creu gweithdrefnau cwyno a datrys anghydfod ynghylch materion technegol a materion eraill sy'n gysylltiedig â'r broses rheoli adeiladu, a'u rhoi ar waith
- Sicrhau y caiff y gyfraith sy'n gymwys i rôl rheoli adeiladu a rheoli'r tîm rheoli adeiladu ei dilyn
- Cymryd pob cam rhesymol i sicrhau bod arolygwyr adeiladau Dosbarth 2 a Dosbarth 3 yn gymwys a'u bod yn gweithredu yn unol â'r cod ymddygiad bob amser

Atebolrwyddau

- I'r cwmni/cyflogwr, y cyhoedd yn gyffredinol, pobl mewn adeiladau ac o'u cwrpas a'r tîm rheoli adeiladu
- Rheoli/goruchwyllo gwaith eu tîm er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth â'r gyfraith
- Sicrhau bod y tîm rheoli adeiladu yn gymwys i gyflawni'r gweithgareddau a'r swyddogaethau rheoli adeiladu, rhoi cymorth i ennill cymwyseddau, monitro/archwilio cymwyseddau, a chefnogi'r broses gofrestru
- Cofnodi a rheoli achosion o wrthdaro buddiannau yn unol â pholisi gwrthdaro buddiannau'r sefydliad ac yn unol â'r Rheolau Safonau Gweithredol a gyhoeddir gan Weinidogion Cymru
- Arwain a rheoli'r swyddogaeth/tîm rheoli adeiladu er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth â'r gyfraith, y Rheolau Safonau Gweithredol a dangosyddion perfformiad allweddol a gyhoeddir gan Weinidogion Cymru a threfniadau sefydliadol

Sgiliau dangosol

- Sgiliau rheoli a sgiliau gwneud penderfyniadau sy'n berthnasol i bob agwedd ar reoli adeiladu
- Craffter ariannol, gan fod rheoli adeiladu yn weithgaredd y gellir codi tâl amdano a rhaid rhoi cyfrif am unrhyw arian
- Hyfedredd TG
- Sgiliau recriwtio a chadw, sy'n gysylltiedig â chymwyseddau, hyfforddi a datblygu
- Sgiliau rhyngpersonol, cyfathrebu'n effeithiol, gwaith tîm
- Ymddygiadau moesegol ac anwahaniaethol
- Gwaith ymchwil, dadansoddi, ymwybyddiaeth o risgiau ac asesu sy'n gysylltiedig â gwneud penderfyniadau

Enghreifftiau dangosol o wybodaeth/cymwysterau

- Addysg hyd at lefel 6 ynghyd â phrofiad sylweddol ym maes rheoli adeiladu
- Y gallu i ddeall y Rheolau Safonau Gweithredol, dangosyddion perfformiad allweddol a'r Cod Ymddygiad a gyhoeddir gan Weinidogion Cymru yn ogystal â threfniadau sefydliadol, a'u rhoi ar waith ym maes rheoli adeiladu er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth â'r gyfraith

Lefelau profiad dangosol

- Profiad sylweddol o weithio yn y proffesiwn rheoli adeiladu, gan fagu profiad o'r ystod lawn o weithgareddau a swyddogaethau a reolir ganddynt
- Profiad sy'n gysylltiedig â'r holl eitemau y cyfeirir atynt uchod, o'r cam cysyniad i'r cam cwblhau a chamau gorfodi fel y bo'n briodol


Ymddygiadau dangosol

- Yn ymddwyn yn broffesiynol drwy'r amser, gan ddangos lefelau uchel o sgiliau technegol a sgiliau sy'n canolbwyntio ar bobl
- Gweithredu ag uniondeb a pharch, ac yn unol â'r Cod Ymddygiad
- Ymrwymiad i DPP
- Cyfathrebu a dylanwadu (hyfedr iawn)
- Gweld y darlun ehangach
- Gwneud penderfyniadau effeithiol (hyfedr iawn)

3. Trosolwg o fodel y FfCAA (a elwir hefyd yn “olwyn y FfCAA”)

Mae model y FfCAA ar gyfer y proffesiwn rheoli adeiladu wedi'i rannu'n 9 maes pwnc cymhwysedd. Mae'r rhain yn cydberthyn ac yn gorgyffwrdd ond, yn fras, maent yn ymdrin â naill ai:

- Cymhwysedd technegol
- Cymhwysedd cyflawni, neu
- Gymhwysedd rheoli



4. Lefelau cymhwysedd

Mae Llywodraeth Cymru wedi adolygu'r pedair lefel cymhwysedd a amlinellir yn arddodiad [Future of Building Control](#) ac mae'n cynnig eu defnyddio fel sail i'r rhai a ddisgrifir yn y FfCAA.

Y lefelau cymhwysedd yw:

1. Ymwybyddiaeth

Gwybodaeth sylfaenol am y pwnc a'r berthynas rhyngddo a'u rôl.

2. Gwerthfawrogiad

Gwybodaeth gefndir gyffredinol am y maes pwnc, ynghyd â gwerthfawrogiad o'r bwriad. Mae'n bosibl y bydd angen mewnbwn arbenigol pobl eraill i asesu cydymffurfiaeth.

3. Dealltwriaeth

Gwybodaeth ddigonol am y cymhlethdodau dan sylw er mwyn gwneud penderfyniadau annibynnol ac asesu cydymffurfiaeth gwaith adeiladu nodweddiadol, gan gynnwys defnyddio mewnbwn gan arbenigwyr eraill.

4. Cynhwysfawr

Gwybodaeth ddigon manwl a'r sgiliau angenrheidiol i wneud penderfyniadau am faterion cymhleth sy'n gysylltiedig â dylunio ac adeiladu a'r gallu i gomisiynu a chwestiynu cymorth arbenigol lle bo angen.

Mae'r lefelau cymhwysedd hyn yn adlewyrchu anghenion pob unigolyn mewn perthynas â'i rôl ym maes rheoli adeiladu a dylid eu darllen fel gofyniad cynyddol, gan ddechrau ar ymwybyddiaeth cyn cyrraedd dealltwriaeth gynhwysfawr yn y pen draw.

Mae adran 5 o'r ddogfen hon yn nodi'r hyn y bydd disgwyl i unigolyn ei ddangos ar bob lefel cymhwysedd, ar gyfer pob un o'r naw maes cymhwysedd a ddisgrifir.

5. Fframwaith meysydd pwnc cymhwysedd FfCAA

Mae'r fframwaith canlynol yn rhoi datganiad cymhwysedd cyffredinol, a manylion am y gofynion ar gyfer dangos cymhwysedd, ar gyfer pob un o'r naw maes pwnc cymhwysedd a amlinellir yn y trosolwg o fodel y FfCAA yn adran 3 (a elwir hefyd yn "olwyn y FfCAA").

Y Gyfraith

DATGANIAD CYMHWYSEDD CYFFREDINOL AR GYFER Y GYFRAITH

Cynnal safonau proffesiynol uchel o ran cymhwyso'r gyfraith a'r deddfau a'r rheoliadau cysylltiedig, wrth gyflawni gweithgareddau rheoli adeiladu (yr holl swyddogaethau a gweithgareddau rheoli adeiladu).

Trosolwg o gymhwysedd lefel 1 – ymwybyddiaeth o'r canlynol:

- Y gyfraith sy'n berthnasol i reoli adeiladu, h.y. pa ddeddfwriaeth sylfaenol ac is-ddeddfwriaeth sy'n gymwys ac yn cael eu gorfodi gan weithwyr proffesiynol ym maes rheoli adeiladu
- Terminoleg gyfreithiol sy'n gysylltiedig ag egwyddorion y gyfraith* ac ymddygiadau cyfreithiol.
- Egwyddorion y gyfraith* a rolau a chyfrifoldebau unigolion a sefydliadau o ran cymhwyso rheoliadau adeiladu
- Deddfwriaeth sylfaenol a deddfwriaeth gysylltiedig sy'n berthnasol i reoli adeiladu

Trosolwg o gymhwysedd lefel 2 – gwerthfawrogiad o'r canlynol:

Gwerthfawrogiad o gynnwys lefel 1, a hefyd:

- Sut y dylai arolygydd adeiladau gyflawni ei ddyletswyddau mewn perthynas â'r gyfraith yn y ffordd y caiff ei chymhwyso at yr holl swyddogaethau a gweithgareddau rheoli adeiladu

Trosolwg o gymhwysedd lefel 3 – dealltwriaeth o'r canlynol:

Dealltwriaeth o gynnwys lefel 1-2, a hefyd:

- Sut mae'r gyfraith yn rhyngweithio â'r Cod Ymddygiad ar gyfer Arolygwyr Adeiladau Cofrestredig
- Sut i ganfod, cymhwyso a gorfodi'r gyfraith wrth gyflawni'r holl swyddogaethau a gweithgareddau rheoli adeiladu

Trosolwg o gymhwysedd lefel 4 – dealltwriaeth gynhwysfawr o'r canlynol:

Dealltwriaeth gynhwysfawr o gynnwys lefel 1-3, a hefyd:

- Sut i gymhwyso cyfraith berthnasol at adeiladau cymhleth ac adeiladau preswyl uchel iawn

Y gyfraith – sgiliau, gwybodaeth, profiad ac ymddygiadau (enghreiffiau dangosol)

Meini prawf cymhwysedd lefel 1 – ymwybyddiaeth

Ymhlith yr egwyddorion cyfreithiol mae;

- Adolygu cyfraith sy'n gysylltiedig â rheoli adeiladu; diben, creu, datblygu, gan gynnwys deddfwriaeth sylfaenol ac is-ddeddfwriaeth, y berthynas rhwng polisïau, gweithdrefnau a phrosesau ymgynghori sefydliadol â'r ffordd y caiff y gyfraith ei chymhwyso.
- Sut mae dyletswyddau unigolion a sefydliadau o ran dylunio, adeiladu, arolygu, cydymffurfio a gorfodi yn cefnogi adeiladau diogel a chynaliadwy.
- Statws cyfreithiol dogfennau eraill, megis Dogfennau Cymeradwy a chanllawiau
- Sut y caiff y gyfraith a materion ac ymddygiadau cyfreithiol eu cymhwyso er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth,

Mae'r deddfwriaeth sylfaenol a deddfwriaeth gysylltiedig sy'n berthnasol i reoli adeiladu yn cynnwys:

- Deddf Diogelwch Adeiladau 2022 ac is-ddeddfwriaeth gysylltiedig
- Deddf Adeiladu 1984 (fel y'i diwygiwyd) ac is-ddeddfwriaeth gysylltiedig
- Rheoliadau Adeiladu 2010 (fel y'u diwygiwyd) a Dogfennau Cymeradwy cysylltiedig
- Cyfraith Eiddo a Thir
- Cyfraith Iechyd a Diogelwch
- Cyfraith Droseddol a Sifil
- Cyfraith Asiantaeth
- Cyfraith Achosion a chynseiliau
- Deddfwriaeth Diogelu Data

Meini prawf cymhwysedd lefel 2 – Gwerthfawrogiad

Gwerthfawrogiad o feini prawf lefel 1, a hefyd:

- Sut mae'r gyfraith yn rhyngweithio â'r swyddogaethau rheoli adeiladu, gan gynnwys gweithgareddau a swyddogaethau dan gyfyngiadau a gweithgareddau rheoli adeiladu nad ydynt dan gyfyngiadau.

Meini prawf cymhwysedd lefel 3 – Dealltwriaeth

Dealltwriaeth o feini prawf lefel 1-2, a hefyd:

- Sut i gymhwyso'r gyfraith er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth wrth gyflawni gweithgareddau rheoli adeiladu, gan gynnwys asesu cynlluniau a chynnal arolygiadau.
- Y pwerau gorfodi sydd ar gael: eu graddau a'u cyfyngiadau, pryd a sut i'w cymhwyso er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth.

- Sut mae'r ffordd y caiff sgiliau personol, technegol a phroffesiynol (mewn perthynas â'r gyfraith) eu cymhwyso yn gwella'r ffordd y caiff gweithgareddau a swyddogaethau rheoli adeiladu eu cyflawni.

Meini prawf cymhwysedd lefel 4 – Cynhwysfawr

Dealltwriaeth gynhwysfawr o feini prawf lefel 1-3, a hefyd:

- Cymhwyso deddfwriaeth berthnasol at adeiladau cymhleth ac adeiladau preswyl uchel iawn

Technoleg

DATGANIAD CYMHWYSEDD CYFFREDINOL AR GYFER TECHNOLEG

Dangos lefelau uchel o arbenigedd a sgiliau proffesiynol sy'n gysylltiedig ag adeiladu'r amgylchedd adeiledig a chyflawni'r holl swyddogaethau a gweithgareddau rheoli adeiladu. Mae cymhwysedd technolegol yn cynnwys technoleg adeiladu (adeiladau sydd eisoes yn bodoli ac adeiladau newydd), systemau adeiladu, dulliau adeiladu modern, cynaliadwyedd ac yswiriant.

Trosolwg o gymhwysedd lefel 1 – ymwybyddiaeth o'r canlynol:

- Disgwyliadau ym maes rheoli adeiladu ar gyfer adeiladau newydd ac adeiladau sydd eisoes yn bodoli, ffurfiau a swyddogaethau, systemau, cydrannau a deunyddiau adeiladu, gan ystyried datblygiadau cymdeithasol, amgylcheddol a thechnegol
- Terminoleg sy'n gysylltiedig ag yswiriant a gwarantau, a'i rôl a'r ffordd y caiff ei defnyddio, mewn prosesau adeiladu a phrosesau rheoli adeiladu
- Gwaith ymchwil cysylltiedig i ddeunyddiau, technolegau a systemau a gyflwynir fel elfennau/modiwlau o fewn adeiladau.
- Trefniadau profi ac ardystio a chanllawiau cysylltiedig, o'r cam gweithgynhyrchu drwy'r prosesau cludo ac ymgorffori'r amrywiol elfennau yn yr amgylchedd adeiledig
- Terminoleg ym maes cynaliadwyedd sy'n gysylltiedig â Deddf Adeiladu 1984 a rheoliadau adeiladu
- Rôl deiliaid dyletswydd o ran dewis deunyddiau a systemau a'u defnyddio'n briodol

Trosolwg o gymhwysedd lefel 2 – gwerthfawrogiad o'r canlynol:

Gwerthfawrogiad o gynnwys lefel 1, a hefyd:

- Sut y dylai arolygydd adeiladau ystyried cydymffurfiaeth gan ddefnyddio'r llawlyfrau technegol sy'n gysylltiedig â darpariaethau gwarantau
- Sut mae cynnwys lefel 1-2 yn rhyngweithio a'r holl weithgareddau a swyddogaethau rheoli adeiladu.

Trosolwg o gymhwysedd lefel 3 – dealltwriaeth o'r canlynol:

Dealltwriaeth o gynnwys lefel 1-2, a hefyd:

- Trefniadau profi ac ardystio a dogfennau canllawiau priodol
- Sut i ymgymryd â rheoli adeiladu i gefnogi amgylchedd adeiledig cynaliadwy
- Integreiddio adeiladau newydd yn yr amgylchedd adeiledig presennol
- Sut mae cynnwys lefel 1-3 yn rhyngweithio a'r holl weithgareddau a swyddogaethau rheoli adeiladu.

Trosolwg o gymhwysedd lefel 4 – dealltwriaeth gynhwysfawr o'r canlynol:

Dealltwriaeth gynhwysfawr o gynnwys lefel 1-3, a hefyd:

- Ei gymhwyso at bob adeilad gan gyfeirio'n benodol at adeiladau cymhleth ac adeiladau preswyl uchel iawn.

Technoleg – sgiliau, gwybodaeth, profiad ac ymddygiadau (enghreifftiau dangosol)

Meini prawf cymhwysedd lefel 1 – ymwybyddiaeth

- Y rheoliadau adeiladu sydd mewn grym nawr a'r ffordd y maent wedi newid dros amser, a'r gwahanol ffurfiau adeiladu a thechnolegau a ddefnyddir i sicrhau cydymffurfiaeth
- Patholeg adeiladu a datblygu systemau, cydrannau a deunyddiau adeiladu
- Dylunio diogelwch tân, gan gynnwys ymddygiad pobl, deunyddiau a'r dulliau adeiladu i sicrhau cydymffurfiaeth â'r rheoliadau adeiladu
- Perfformiad strwythurol gwahanol fathau a dulliau adeiladu
- Y gofynion yswiriant mewn perthynas â rolau unigolion a sefydliadau o fewn y diwydiant adeiladu a gweithgareddau rheoli adeiladu
- Cydnabod risgiau a rôl llawlyfrau technegol o ran bodloni gofynion swyddogaethol y rheoliadau adeiladu.
- Datblygu, cymhwyso a defnyddio strategaethau cydymffurfio er mwyn bodloni gofynion y rheoliadau adeiladu, e.e. tân, thermol, hygyrchedd, awyru, sŵn, draenio ac ati.

Meini prawf cymhwysedd lefel 2 – gwerthfawrogiad

Gwerthfawrogiad o feini prawf lefel 1, a hefyd:

- Dysgu am yr amgylchedd adeiledig sydd eisoes yn bodoli, estyniadau, addasiadau, gwaith adnewyddu ac adeiladau newydd ac ymgorffori systemau, cydrannau a deunyddiau adeiladu a'u hintegreiddio mewn ffordd sy'n cydymffurfio â'r rheoliadau adeiladu
- Sut mae yswiriant, gwarantau a'r llawlyfrau a'r dogfennau cysylltiedig a ddefnyddir yn rhyngweithio â'r swyddogaethau a gweithgareddau rheoli adeiladu
- Sut mae cynnwys lefel 1-2 yn rhyngweithio a'r holl weithgareddau a swyddogaethau rheoli adeiladu.

Meini prawf cymhwysedd lefel 3 – dealltwriaeth

Dealltwriaeth o feini prawf lefel 1-2, a hefyd:

- Cymhwyso technoleg, systemau, cydrannau a deunyddiau adeiladu er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth â'r rheoliadau adeiladu mewn perthynas ag adeiladau newydd a'u hintegreiddio yn yr amgylchedd adeiledig sydd eisoes yn bodoli
- Defnyddio a derbyn dogfennau a llawlyfrau technegol yn briodol yn ystod y gweithgareddau a'r prosesau rheoli adeiladu o ddydd i ddydd.
- Y berthynas rhwng cynnwys lefel 1-3 â'r gwaith o gyflawni'r holl weithgareddau a swyddogaethau rheoli adeiladu a'r cod ymddygiad ar gyfer arolygwyr adeiladau cofrestredig

Meini prawf cymhwysedd lefel 4 – cynhwysfawr

Dealltwriaeth gynhwysfawr o feini prawf lefel 1-3, a hefyd:

- Cymhwyso cynnwys lefel 1-4 at adeiladau cymhleth ac adeiladau preswyl uchel iawn

Gwasanaethau Adeiladu

DATGANIAD CYMHWYSEDD CYFFREDINOL AR GYFER GWASANAETHAU ADEILADU

Cynnal safonau proffesiynol uchel wrth ystyried a derbyn gwasanaethau adeiladu fel rhan o'r gwaith o sicrhau cydymffurfiaeth â'r rheoliadau priodol (yr holl swyddogaethau a gweithgareddau rheoli adeiladu). Diffinnir gwasanaethau adeiladu fel y darpariaethau sy'n gwneud i adeilad weithio a bod yn addas i'w ddefnyddio, gan gynnwys goleuadau a systemau gwresogi, awyru, draenio, canfod tân, larymau ac ati a nodir yn y wybodaeth bynciol fanwl

Trosolwg o gymhwysedd lefel 1 – ymwybyddiaeth o'r canlynol:

- Y broses o ddarparu gwasanaethau o fewn adeilad sy'n gysylltiedig â'r ffordd y caiff adeilad ei ddefnyddio a'i feddiannu, a rôl y gwasanaethau hynny

Trosolwg o gymhwysedd lefel 2 – gwerthfawrogiad o'r canlynol:

Gwerthfawrogiad o gynnwys lefel 1, a hefyd:

- Datblygiadau cymdeithasol, amgylcheddol a thechnegol sy'n berthnasol i wasanaethau adeiladu, a'u heffaith ar y gwaith o gyflawni gweithgareddau rheoli adeiladu mewn perthynas â gwaith newydd, a'r ffordd y caiff gwasanaethau newydd eu hintegreiddio mewn adeiladau sydd eisoes yn bodoli

Trosolwg o gymhwysedd lefel 3 – dealltwriaeth o'r canlynol:

Dealltwriaeth o gynnwys lefel 1-2, a hefyd:

- Sut i adnabod y gwasanaethau gofynnol mewn perthynas â'r defnydd(iau) arfaethedig o adeiladau a'r ffordd y cânt eu hintegreiddio yn y ffurf adeiledig, gan gydymffurfio â'r rheoliadau adeiladu

Trosolwg o gymhwysedd lefel 4 – Dealltwriaeth gynhwysfawr o'r canlynol:

Dealltwriaeth gynhwysfawr o gynnwys lefel 1-3, a hefyd:

- Rôl gwasanaethau adeiladu a'r ffordd y cânt eu darparu a'u defnyddio o fewn adeiladau cymhleth ac adeiladau preswyl uchel iawn

Gwasanaethau adeiladu – sgiliau, gwybodaeth, profiad ac ymddygiadau (enghreifftiau dangosol)

Meini prawf cymhwysedd lefel 1 – ymwybyddiaeth

- Dylunio, gosod, arolygu a chomisiynu gwasanaethau adeiladu gan gynnwys y canlynol ond heb fod yn gyfyngedig iddynt:
 - Gwasanaethau dŵr, gan gynnwys systemau draenio dŵr budr a dŵr storm
 - Systemau gwresogi
 - Systemau awyru/aerdymheru
 - Systemau trydan
 - Atebion ynni adnewyddadwy
 - Cafnau llithro a sugno systemau gwaredu gwastraff
 - Systemau canfod tân, larymau, goleuadau argyfwng ac arwyddion ar gyfer adeiladau newydd a gwaith mewn ymateb i archwiliadau tân
 - Systemau rheoli mwg ac awyru tân a ddefnyddir fel dull dianc
 - Liffitiau, gan gynnwys lifftiau diffodd tân, teclynnau codi ac esgaladuron
 - Systemau cyfathrebu
- Cynlluniau personau cymwys a'u rôl o ran sicrhau cydymffurfiaeth â'r Rheoliadau Adeiladu

Meini prawf cymhwysedd lefel 2 – gwerthfawrogiad

Gwerthfawrogiad o feini prawf lefel 1, a hefyd:

- Sicrhau cydymffurfiaeth â'r rheoliadau adeiladu mewn perthynas ag estyniadau, addasiadau, gwaith adnewyddu ac adeiladau newydd drwy'r prosesau asesu cynlluniau ac arolygu.
- Y berthynas rhwng cynnwys lefel 1-2 a gweithgareddau a swyddogaethau rheoli adeiladu

Meini prawf cymhwysedd lefel 3 – dealltwriaeth

Dealltwriaeth o feini prawf lefel 1-2, a hefyd:

- Yr hyn sy'n sicrhau bod gwasanaeth adeilad yn cydymffurfio â'r rheoliadau
- Y berthynas rhwng cynnwys lefel 1-3 a gweithgareddau a swyddogaethau rheoli adeiladu

Meini prawf cymhwysedd lefel 4 – cynhwysfawr

Dealltwriaeth gynhwysfawr o feini prawf lefel 1-3, a hefyd:

- Cymhwyso cynnwys lefel 1-4 at adeiladau cymhleth ac adeiladau preswyl uchel iawn

Swyddogaethau a Gweithgareddau

DATGANIAD CYMHWYSEDD CYFFREDINOL AR GYFER SWYDDOGAETHAU A GWEITHGAREDDAU RHEOLI ADEILADU

Cynnal safonau proffesiynol uchel wrth gyflawni'r holl swyddogaethau a gweithgareddau rheoli adeiladu.

Trosolwg o gymhwysedd lefel 1 – ymwybyddiaeth o'r canlynol:

- Y gweithgareddau a'r swyddogaeth, bod dan gyfyngiadau ai peidio, a gyflawnir gan sefydliadau rheoli adeiladu
- Rôl rheoli adeiladu yn y broses ddatblygu a'r swyddogaethau a'r gweithgareddau unigol a gyflawnir gan sefydliadau rheoli adeiladu

Trosolwg o gymhwysedd lefel 2 – gwerthfawrogiad o'r canlynol:

Gwerthfawrogiad o gynnwys lefel 1, a hefyd:

- Rôl rheoli adeiladu yn y broses ddatblygu a'r swyddogaethau a'r gweithgareddau unigol a gyflawnir gan unigolion gan gynnwys arolygwyr adeiladau cofrestredig a heb eu cofrestru
- Y prosesau sy'n gysylltiedig â chyflawni'r swyddogaeth rheoli adeiladu

Trosolwg o gymhwysedd lefel 3 – dealltwriaeth o'r canlynol:

Dealltwriaeth o gynnwys lefel 1-2, a hefyd:

- Sut i fynd ati'n effeithiol i gyflawni swyddogaethau a gweithgareddau rheoli adeiladu sy'n briodol i rôl arolygydd adeiladau cofrestredig
- Y prosesau sy'n gysylltiedig â chyflawni'r swyddogaeth rheoli adeiladu yn unol â'r Cod Ymddygiad ar gyfer Arolygwyr Adeiladau Cofrestredig

Trosolwg o gymhwysedd lefel 4 – dealltwriaeth gynhwysfawr o'r canlynol:

Dealltwriaeth gynhwysfawr o gynnwys lefel 1-3, a hefyd:

- Sut i fynd ati'n effeithiol i gyflawni swyddogaethau a gweithgareddau rheoli adeiladu sy'n briodol i rôl arolygydd adeiladau cofrestredig (Adeiladau Cymhleth/Adeiladau Preswyl Uchel Iawn)

Swyddogaethau a gweithgareddau – sgiliau, gwybodaeth, profiad ac ymddygiadau (enghreiffiau dangosol)

Meini prawf cymhwysedd lefel 1 – ymwybyddiaeth

- O'r holl swyddogaethau a gweithgareddau rheoli adeiladu a nodir o fewn deddfwriaeth, gan gynnwys:
 - Deddf Adeiladu 1984 (fel y'i diwygiwyd)
 - Rheoliadau Adeiladu 2010 (fel y'u diwygiwyd)
 - Deddf Diogelwch Adeiladau 2022 ac is-ddeddfwriaeth berthnasol
- Gweithgareddau cyn cyflwyno
- Ymgynghoriadau ar gynigion ceisiadau posibl a chymhwyso'r rheoliadau adeiladu a deddfwriaeth gysylltiedig
- Ystyried esemptiadau, ceisiadau dilys a'r prosesau i'w dilyn gan gynnwys llacio a hepgor gofynion os bydd hynny'n briodol
- Cytuno ar ffioedd (gan gynnwys esemptiadau), lefel gwasanaeth, cyflwyno a dilysu
- Cynlluniau llawn, hysbysiadau adeiladu, unioni, dychweliadau a hysbysiadau cychwynnol
- Asesu cynlluniau, a threfniadau arolygu ar gyfer pob cais a cham gorfodi
- Cytundebau adeiladu dros garthffosydd
- Ymgynghoriadau cynllunio gan gynnwys adolygiadau Gateway a'r rhyngweithio â materion sy'n ymwneud â chynllunio a diogelwch tân
- Archwiliadau strwythurol ac archwiliadau diogelwch tân, rôl y llinyn aur a'r defnydd o gofnodlyfrau a llawlyfrau adeiladu a gaiff eu llunio drwy'r broses rheoli adeiladu a'u cynnal drwy gydol deiliadaeth adeilad
- Strwythurau peryglus, Dymchweliadau a safleoedd diffygiol
- Diogelwch mewn meysydd chwaraeon a thrwyddedu

Meini prawf cymhwysedd lefel 2 – gwerthfawrogiad

Gwerthfawrogiad o feini prawf lefel 1, a hefyd:

- Swyddogaethau a gweithgareddau rheoli adeiladu, a'r ffordd y maent yn rhyngweithio â'i gilydd
- Cydymffurfiaeth â'r swyddogaethau a'r gweithgareddau rheoli adeiladu a gyflawnir gan Awdurdodau Lleol a Chymeradwywyr Rheoli Adeiladu Cofrestredig yn eu rôl fel yr awdurdod rheoli adeiladu ar gyfer adeiladau preswyl uchel iawn
- Swyddogaeth rheoli adeiladu fel y caiff ei chymhwyso at bob math o adeilad heb gynnwys adeiladau cymhleth ac adeiladau preswyl uchel iawn ac adeiladau cymhleth eraill tra cânt eu dylunio, eu hadeiladu a'u defnyddio

Meini prawf cymhwysedd lefel 3 – dealltwriaeth

Dealltwriaeth o feini prawf lefel 1-2, a hefyd

- Y swyddogaeth rheoli adeiladu mewn perthynas â phob math o adeilad heb gynnwys adeiladau cymhleth/adeiladau preswyl uchel iawn ac adeiladau cymhleth eraill tra cânt eu dylunio, eu hadeiladu a'u defnyddio

Meini prawf cymhwysedd lefel 4 – cynhwysfawr

Dealltwriaeth gynhwysfawr o feini prawf lefel 1-3, a hefyd:

- Swyddogaeth rheoli adeiladu fel y caiff ei chymhwyso at bob math o adeilad gan gynnwys adeiladau cymhleth/adeiladau preswyl uchel iawn

Asesu Cynlluniau

DATGANIAD CYMHWYSEDD CYFFREDINOL AR GYFER ASESU CYNLLUNIAU

Cynnal safonau proffesiynol uchel wrth asesu cynlluniau, asesu risg a blaenoriaethu cyn gwneud penderfyniadau ynghylch cydymffurfiaeth.

Trosolwg o gymhwysedd lefel 1 – ymwybyddiaeth o'r canlynol:

- Rôl prosesau a gweithdrefnau asesu cynlluniau, gan gynnwys ymgynghoriadau o'r cam cyflwyno a'r cam dilysu nes y caiff penderfyniad ei wneud ynghylch cydymffurfiaeth neu wrthod
- Dechrau prosesau gorfodi a chadarnhau cydymffurfiaeth ar y cam asesu cynlluniau
- Y disgwyliadau o ran y sgiliau a'r cymhwysedd sy'n ofynnol i asesu cynlluniau

Trosolwg o gymhwysedd lefel 2 – gwerthfawrogiad o'r canlynol:

Gwerthfawrogiad o gynnwys lefel 1, a hefyd:

- Rolau a chyfrifoldebau deiliaid dyletswydd y tîm datblygu, gan gynnwys cleientiaid, prif ddylunwyr, dylunwyr, prif gontractwyr a chontractwyr, yn y prosesau a'r gweithdrefnau
- Y broses asesu cynlluniau sy'n gysylltiedig â'r ffurfiau a swyddogaethau adeiladu sy'n ymwneud â datblygiadau cymdeithasol, amgylcheddol a thechnegol a chyflawni gweithgareddau rheoli adeiladu mewn perthynas â gwaith newydd

Trosolwg o gymhwysedd lefel 3 – dealltwriaeth o'r canlynol:

Dealltwriaeth o gynnwys lefel 1-2, a hefyd:

- Sut i asesu cynlluniau yn effeithiol ar gyfer pob math o adeilad, heb gynnwys adeiladau cymhleth ac adeiladau preswyl uchel iawn
- Sut i adolygu'r agweddau allweddol ar strategaethau dylunio, asesu'r safonau technegol i'w cymhwyso, adnabod elfennau hanfodol o fewn y cynigion a'u hintegreiddio wrth gydymffurfio â rheoliadau a gwneud penderfyniadau effeithiol
- Sut i gyfleu materion technegol a materion yn ymwneud â chydymffurfiaeth yn effeithiol i bob aelod o'r tîm datblygu
- Sut i weithio gydag ymgynghoreion statudol a rheoleiddwyr partner i sicrhau consensws

Trosolwg o gymhwysedd lefel 4 – dealltwriaeth gynhwysfawr o'r canlynol:

Dealltwriaeth gynhwysfawr o gynnwys lefel 1-3, a hefyd:

- Y gweithdrefnau a'r prosesau asesu cynlluniau sy'n briodol ar gyfer pob math o adeilad, gan gynnwys adeiladau cymhleth ac adeiladau preswyl uchel iawn

Asesu cynlluniau – sgiliau, gwybodaeth, profiad ac ymddygiadau (enghreiffiau dangosol)

Meini prawf cymhwysedd lefel 1 – ymwybyddiaeth

- O ofynion cyfreithiol sy'n gysylltiedig ag asesu cynlluniau, fel y'u disgrifir yn y ddeddfwriaeth berthnasol ac fel y maent yn gymwys i'r prosiect dan sylw, gan gynnwys:
 - Deddf Adeiladu 1984 (fel y'i diwygiwyd)
 - Rheoliadau Adeiladu 2010 (fel y'u diwygiwyd)
 - Deddf Diogelwch Adeiladau 2022 ac is-ddeddfwriaeth gysylltiedig
- Y broses asesu cynlluniau a ddilynir ar ôl cael a dilysu ceisiadau mewn perthynas â'r rheoliadau adeiladu
- Bwrw golwg dros ddogfennau ac asesu'r defnydd, maint amldefnydd, arwynebedd, cyfaint, uchder a deiliadaeth

Meini prawf cymhwysedd lefel 2 – gwerthfawrogiad

Gwerthfawrogiad o feini prawf lefel 1, a hefyd:

- Asesu risg a blaenoriaethu cydymffurfiaeth reoliadol
- Ceisiadau am ragor o wybodaeth, manylebau, gwaith cyfrifo a manylion cysylltiedig, a'u hystyried, er mwyn cyfiawnhau/cymeradwyo cydymffurfiaeth a gwneud penderfyniadau yn unol â'r amserlen ddeddfwriaethol, cymeradwyo cynlluniau, rhoi cymeradwyaeth amodol neu gymeradwyo camau, neu eu gwrthod oherwydd diffyg cydymffurfio

Profiad ac arbenigedd datblygwyr/adeiladwyr a'r ffordd y maent yn rhyngweithio â'r broses asesu cynlluniau mewn perthynas â'r gwaith arfaethedig a nifer yr arolygiadau y bydd eu hangen

Cofnodi prosesau asesu cynlluniau a chreu trywydd archwilio sy'n cynnwys camau gweithredu priodol a manylion y strategaethau a ddefnyddir i sicrhau cydymffurfiaeth

Meini prawf cymhwysedd lefel 3 – dealltwriaeth

Dealltwriaeth o feini prawf lefel 1-2, a hefyd:

- Sut i sicrhau cydymffurfiaeth â'r rheoliadau adeiladu mewn perthynas ag estyniadau, addasiadau, gwaith adnewyddu ac adeiladau newydd drwy'r broses asesu cynlluniau.

Meini prawf cymhwysedd lefel 4 – cynhwysfawr

Dealltwriaeth gynhwysfawr o feini prawf lefel 1-3, a hefyd:

Dilyn y prosesau asesu cynlluniau a'u rôl o ran sicrhau cydymffurfiaeth yn yr amgylchedd adeiledig ar gyfer pob adeilad gan gynnwys adeiladau cymhleth ac adeiladau preswyl uchel iawn

Arolygiadau a Gorfodi

DATGANIAD CYMHWYSEDD CYFFREDINOL AR GYFER AROLYGIADAU A GORFODI

Cynnal safonau proffesiynol uchel yn ystod prosesau arolygu a chymryd camau gorfodi fel y bo'n briodol er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth â'r rheoliadau adeiladu

Trosolwg o gymhwysedd lefel 1 – ymwybyddiaeth o'r canlynol:

- Prosesau a gweithdrefnau arolygu a'r broses o symud o gynlluniau i'r gwaith adeiladu gwirioneddol ar y safle.
- Disgwyliadau o ran sgiliau a chymwyseddau sy'n gysylltiedig ag arolygu adeiladau a sicrhau cydymffurfiaeth â'r rheoliadau adeiladu.
- Y term 'gorfodi' a sut y caiff ei gymhwyso o fewn prosesau rheoleiddio adeiladu
- Y prosesau a'r gweithdrefnau sy'n gysylltiedig â'r ffordd y caiff y gyfraith ei gorfodi a chamau cyfreithiol priodol a chyweirio gwaith nad yw'n cydymffurfio

Trosolwg o gymhwysedd lefel 2 – gwerthfawrogiad o'r canlynol:

Gwerthfawrogiad o gynnwys lefel 1, a hefyd:

- Effaith datblygiadau cymdeithasol, amgylcheddol a thechnegol ar y broses arolygu a'r ffordd y caiff swyddogaethau a gweithgareddau rheoli adeiladu eu cyflawni
- Sut mae camau gorfodi'n effeithio ar estyniadau, addasiadau, gwaith adnewyddu ac adeiladau newydd

Trosolwg o gymhwysedd lefel 3 – dealltwriaeth o'r canlynol:

Dealltwriaeth o gynnwys lefel 1-2, a hefyd:

- Sut i sefydlu trefniadau arolygu a gorfodi addas ar gyfer estyniadau, addasiadau, gwaith adnewyddu ac adeiladau newydd, a'u rhoi ar waith, gan gynnwys camau cyfreithiol priodol a chyweirio gwaith nad yw'n cydymffurfio, ar gyfer pob math o adeilad heblaw adeiladau cymhleth ac adeiladau preswyl uchel iawn
- Y ffordd y mae'r meini prawf gorfodi a'r rheoliadau adeiladau a'r ddeddfwriaeth gysylltiedig yn rhyngweithio o fewn y swyddogaethau asesu cynlluniau ac arolygu
- Rôl allweddol gorfodi a'r ffordd y mae cydymffurfiaeth â'r rheoliadau adeiladau a'r ddeddfwriaeth gysylltiedig yn rhyngweithio â'r cod ymddygiad ar gyfer Arolygwyr Adeiladau Cofrestredig.
- Y gallu i gyfleu materion technegol a materion yn ymwneud â chydymffurfiaeth yn effeithiol i bob aelod o'r tîm datblygu

Trosolwg o gymhwysedd lefel 4 – dealltwriaeth gynhwysfawr o'r canlynol:

Dealltwriaeth gynhwysfawr o gynnwys lefel 1-3, a hefyd:

- Sut i sefydlu trefniadau arolygu a gorfodi addas ar gyfer adeiladau cymhleth/adeiladau preswyl uchel iawn a'u rhoi ar waith
- Sut i sicrhau bod pob aelod o'r timau rheoli adeiladu a datblygu yn deall y gweithdrefnau arolygu a gorfodi a'r ffordd y gellir eu defnyddio i gefnogi cydymffurfiaeth, yn enwedig mewn perthynas ag adeiladau cymhleth/adeiladau preswyl uchel iawn

Arolygiadau a Gorfodi – sgiliau, gwybodaeth, profiad ac ymddygiadau (enghreifftiau dangosol)

Meini prawf cymhwysedd lefel 1 – ymwybyddiaeth

- Terminoleg gorfodi a'r gyfraith rheoli adeiladu berthnasol
- Datblygu trefniadau arolygu a gorfodi effeithiol ar gyfer estyniadau, addasiadau, gwaith adnewyddu ac adeiladau newydd er mwyn cefnogi cydymffurfiaeth â'r rheoliadau adeiladu
- Sut mae'r canlynol yn effeithio ar arolygu a gorfodi:
 - Math o adeilad, defnydd, dull adeiladu
 - Ffactorau amgylcheddol megis tywydd tymhorol
 - Profiad ac arbenigedd datblygwyr
 - Cymhlethdod y gwaith arfaethedig
 - Unrhyw elfennau hanfodol a nodir
- Gweithdrefnau arolygu gan gynnwys trefnu, paratoi, samplu, profi a chasglu tystiolaeth
- Rôl TG, ffotograffau, dronau, fideos, y we ac e-bost
- Cofnodi arolygiadau a chreu trywydd archwilio sydd â champau gweithredu priodol gan gynnwys camau gorfodi a nodwyd ac a gymerwyd
- Cwblhau ac ardystio
- Gwaharddebau, adroddiadau a'r rhyngweithio rhyngddynt a phrosesau asesu cynlluniau ac arolygiadau
- Gweithdrefnau gweinyddol, camau gweithredu ac amserlenni cyn achosion llys

Meini prawf cymhwysedd lefel 2 – gwerthfawrogiad

Gwerthfawrogiad o feini prawf lefel 1, a hefyd:

- Rôl gorfodi a chyweirio gwaith nad yw'n cydymffurfio
- Gwerthfawrogiad o effaith arolygu a gorfodi ar yr amgylchedd adeiledig sydd eisoes yn bodoli ac ar estyniadau, addasiadau, gwaith adnewyddu ac adeiladau newydd

Meini prawf cymhwysedd lefel 3 – dealltwriaeth

Dealltwriaeth o feini prawf lefel 1-2, a hefyd:

- Cymhwyso'r prosesau a'r gweithdrefnau arolygu a gorfodi ym maes rheoli adeiladu, a'u rolau o fewn yr amgylchedd adeiledig sydd eisoes yn bodoli mewn perthynas â chreu estyniadau, addasiadau, gwaith adnewyddu ac adeiladau newydd.

Meini prawf cymhwysedd lefel 4 – cynhwysfawr

Dealltwriaeth gynhwysfawr o feini prawf lefel 1-3, a hefyd:

- Cymhwyso'r prosesau a'r gweithdrefnau arolygu a gorfodi ym maes rheoli adeiladu, a'u rolau o fewn yr amgylchedd adeiledig sydd eisoes yn bodoli mewn perthynas ag adeiladau cymhleth/adeiladau preswyl uchel iawn.

Sgiliau Rheoli a Sgiliau Craidd

DATGANIAD CYMHWYSEDD CYFFREDINOL AR GYFER SGILIAU RHEOLI A SGILIAU CRAIDD

Cynnal safonau proffesiynol uchel wrth gymhwyso sgiliau rheoli a sgiliau craidd i sicrhau cydymffurfiaeth â'r rheoliadau priodol ().

Trosolwg o gymhwysedd lefel 1 – ymwybyddiaeth o'r canlynol:

- Rôl sgiliau rheoli a sgiliau craidd a'r ffordd y cânt eu hintegreiddio yn y swyddogaethau a gweithgareddau rheoli adeiladu, eu datblygu a'u cymhwyso mewn perthynas â gweithgareddau'r sefydliad a'r unigolyn
- Y ffaith bod sgiliau rheoli a sgiliau craidd yn sgiliau cynyddol a bod cymhwysedd yn berthnasol i'r rôl a gyflawnir ac yn ddatblygiadol drwy gydol bywyd personol a bywyd gwaith unigolyn

Trosolwg o gymhwysedd lefel 2 – gwerthfawrogiad o'r canlynol:

Gwerthfawrogiad o gynnwys lefel 1, a hefyd:

- Rôl sgiliau rheoli a sgiliau craidd o ran sicrhau cydymffurfiaeth â'r rheoliadau adeiladu ac integreiddio swyddogaethau a gweithgareddau rheoli adeiladu yn yr amgylchedd adeiledig

Trosolwg o gymhwysedd lefel 3 – dealltwriaeth o'r canlynol:

Dealltwriaeth o gynnwys lefel 1-2, a hefyd:

- Sut i ddefnyddio sgiliau rheoli a sgiliau craidd yn effeithiol wrth gyflawni swyddogaethau a gweithgareddau rheoli adeiladu sefydliad ar gyfer pob math o adeiladu, heb gynnwys adeiladau cymhleth ac adeiladau preswyl uchel iawn, gan gynnwys atgyfnerthu a datblygu'r cymwyseddau hynny ar gyfer staff rheoli adeiladu

Trosolwg o gymhwysedd lefel 4 – dealltwriaeth gynhwysfawr o'r canlynol:

Dealltwriaeth gynhwysfawr o gynnwys lefel 1-3, a hefyd:

- Sut i ddefnyddio sgiliau rheoli a sgiliau craidd yn effeithiol wrth gyflawni swyddogaethau a gweithgareddau rheoli adeiladu sefydliad ar gyfer pob math o adeiladu, gan gynnwys adeiladau cymhleth ac adeiladau preswyl uchel iawn, atgyfnerthu a datblygu'r cymwyseddau hynny ar gyfer staff rheoli adeiladu
- Y defnydd o sgiliau rheoli a sgiliau craidd i baratoi timau amlddisgyblaethol

Sgiliau rheoli a sgiliau craidd – sgiliau, gwybodaeth, profiad ac ymddygiadau (enghreifftiau dangosol)

Meini prawf cymhwysedd lefel 1 – ymwybyddiaeth

- Y sgiliau rheoli a sgiliau craidd sydd eu hangen ar sefydliadau ac unigolion, mewn gwahanol rolau, i fodloni'r Cod Ymddygiad ar gyfer Arolygwyr Adeiladau Cofrestredig a chyflawni prosesau rheoli adeiladu yn effeithiol.
- Rhaid i flaenoriaethau gwaith, amser a'r gwaith o gynnal a datblygu cymhwyseddau, ymhlith pethau eraill, i gyd gael eu rheoli gan weithwyr proffesiynol ym maes rheoli adeiladu
- Bydd sgiliau rheoli'r sefydliad a'r unigolyn yn mynd i'r afael â phob un o'r canlynol, mewn perthynas â'u swydd:
 - Cyfraith cwmnïau a'r fframwaith cyfreithiol mewn perthynas â rheoli adeiladu
 - Gwneud penderfyniadau
 - Hyfforddi, datblygu, monitro, dilysu a chofrestru'r gweithwyr proffesiynol ym maes rheoli adeiladu y byddant yn eu rheoli
 - Sgiliau ymchwilio ac ymchwil
 - Gwaith rheoli prosiectau sy'n gysylltiedig â rheoli adeiladu
 - Cwynion, datrys anghydfod, gorfodi, a gweithdrefnau llys
 - Datblygu arweinyddiaeth, timau ac unigolion
 - Rheoli adnoddau allanol perthnasol, e.e. contractwyr

Meini prawf cymhwysedd lefel 2 – gwerthfawrogiad

Gwerthfawrogiad o feini prawf lefel 1, a hefyd:

- Defnyddio sgiliau rheoli a sgiliau craidd i sicrhau cydymffurfiaeth â'r rheoliadau adeiladu mewn perthynas ag estyniadau, addasiadau, gwaith adnewyddu ac adeiladau newydd o'r cam cysyniad i'r camau cwblhau ac ardystio

Meini prawf cymhwysedd lefel 3 – dealltwriaeth

Dealltwriaeth o feini prawf lefel 1-2, a hefyd:

- Sut i gymhwyso'r sgiliau rheoli a'r sgiliau craidd sydd eu hangen i wneud gwaith rheoli adeiladu i gefnogi adeiladau o bob math sy'n cydymffurfio â'r rheoliadau, gan gynnwys adeiladau cymhleth/adeiladau preswyl uchel iawn (o'r cam cysyniad i'r camau cwblhau ac ardystio)
- Sut mae sgiliau rheoli a sgiliau craidd yn dylanwadu ar brosesau dylunio, gosod, arolygu, comisiynu ac ardystio a'r llwybr tuag at gydymffurfio â'r Rheoliadau Adeiladu

Meini prawf cymhwysedd lefel 4 – cynhwysfawr

Dealltwriaeth gynhwysfawr o feini prawf lefel 1-3, a hefyd:

- Sut i sicrhau bod aelodau o'r tîm rheoli adeiladu nid yn unig yn dangos sgiliau rheoli a sgiliau craidd da wrth wneud gwaith rheoli adeiladu yn effeithiol, ond hefyd yn gallu atgyfnerthu cymhwysedd yn eu rolau a'i ddatblygu os bydd angen

Rheoli Diogelwch

DATGANIAD CYMHWYSEDD CYFFREDINOL AR GYFER RHEOLI DIOGELWCH

Cynnal safonau proffesiynol uchel sy'n gysylltiedig â'u diogelwch eu hunain a diogelwch pobl eraill yn ystod y prosesau adeiladu a datblygu a gyflawnir ar y safle ac yn y swyddfa

Trosolwg o gymhwysedd lefel 1 – ymwybyddiaeth o'r canlynol:

- Rôl prosesau rheoli adeiladu yn y gwaith o reoli diogelwch datblygiadau ar gyfer pob math o adeilad o'r cam cysyniad a phan gaiff y datblygiad gorffenedig ei ddylunio, ei gymeradwyo, ei adeiladu, ei arolygu, ei ardystio, ei feddiannu a'i ddefnyddio
- Y rôl y gall rheoli adeiladu ei chyflawni i hyrwyddo ac arwain diwylliant diogelwch gan gynnwys glynw wrth egwyddorion diogelwch bywyd, diogelwch tân a diogelwch strwythurol
- Rôl deddfwriaeth iechyd a diogelwch a'r risgiau a'r rheolaethau cysylltiedig yn yr amgylchedd adeiledig

Trosolwg o gymhwysedd lefel 2 – gwerthfawrogiad o'r canlynol:

Gwerthfawrogiad o gynnwys lefel 1, a hefyd:

- Sut i roi egwyddorion diogelwch bywyd, diogelwch tân a diogelwch strwythurol ar waith wrth wneud gwaith rheoli adeiladu drwy'r camau dylunio, adeiladu a meddiannu.
- Cyfathrebu'n effeithiol, â phob parti â diddordeb, gan ddefnyddio amrywiaeth lawn o ddulliau ac arddulliau wrth gyflawni swyddogaethau a gweithgareddau rheoli adeiladu

Trosolwg o gymhwysedd lefel 3 – dealltwriaeth o'r canlynol:

Dealltwriaeth o gynnwys lefel 1-2, a hefyd:

- Sut y dylai gweithiwr proffesiynol gyflawni ei ddyletswyddau rheoli diogelwch ym maes rheoli adeiladu yn unol â'r cod ymddygiad ar gyfer Arolygwyr Adeiladau Cofrestredig
- Sut mae gwaith rheoli diogelwch adeiladau yn helpu i sicrhau cydymffurfiaeth â'r rheoliadau adeiladu, ar gyfer pob math o adeilad heb gynnwys Adeiladau Cymhleth/Adeiladau Preswyl Uchel lawn.

Trosolwg o gymhwysedd lefel 4 – dealltwriaeth gynhwysfawr o'r canlynol:

Dealltwriaeth gynhwysfawr o gynnwys lefel 1-3, a hefyd:

- Sut mae gwaith rheoli diogelwch adeiladau yn helpu i sicrhau cydymffurfiaeth â'r rheoliadau adeiladu, ar gyfer pob math o adeilad gan gynnwys Adeiladau Cymhleth/Adeiladau Preswyl Uchel lawn.
- Sut mae'r defnydd o reoli diogelwch adeiladau yn helpu i gymryd rhan yn effeithiol mewn timau amlddisgyblaethol

Rheoli diogelwch – sgiliau, gwybodaeth, profiad ac ymddygiadau (enghreifftiau dangosol)

Meini prawf cymhwysedd lefel 1 – ymwybyddiaeth

- Terminoleg sy'n gysylltiedig â chynnal diogelwch bywyd, diogelwch tân a diogelwch strwythurol ac ymddygiadau cysylltiedig priodol sy'n gymwys i'r amgylchedd adeiledig
- Rôl iechyd a diogelwch fel y mae'n gymwys i waith rheoli adeiladu mewn perthynas â phob math o adeilad
- Rôl dulliau ac arddulliau cyfathrebu effeithiol a ddefnyddir wrth gyflawni swyddogaethau a gweithgareddau rheoli adeiladu er mwyn sicrhau diogelwch
- Diwylliant y diwydiant adeiladu
- Diogelwch personol, diogelwch pobl eraill a systemau gwaith diogel
- Canfod risgiau, methodoleg asesu a rheoli ar gyfer pob math o adeilad
- Deddfwriaeth ac arferion iechyd a diogelwch, gyda phwyslais ar yr amgylchedd adeiledig
- Deddfwriaeth adeiladu, dylunio a rheoli
- Canfod a chodi pryderon, rhoi gwybod i bartïon priodol yn effeithiol, a chofnodi digwyddiadau rheoli diogelwch a ganfyddir yn ystod asesiadau ac arolygiadau

Meini prawf cymhwysedd lefel 2 – gwerthfawrogiad

Gwerthfawrogiad o feini prawf lefel 1, a hefyd:

- Rheoli diogelwch adeiladau a sut mae'r prosesau hyn yn rhyngweithio â'r swyddogaethau rheoli adeiladu gan gynnwys asesu cynlluniau ac arolygiadau
- Defnyddio sgiliau rheoli diogelwch adeiladau i sicrhau cydymffurfiaeth â'r rheoliadau adeiladu mewn perthynas ag estyniadau, addasiadau, gwaith adnewyddu ac adeiladau newydd o'r cam cysyniad i'r camau cwblhau ac ardystio

Meini prawf cymhwysedd lefel 3 – dealltwriaeth

Dealltwriaeth o feini prawf lefel 1-2, a hefyd:

- Sut i ddangos sgiliau rheoli diogelwch effeithiol wrth wneud gwaith rheoli adeiladu ar gyfer pob math o adeilad heb gynnwys adeiladau cymhleth/adeiladau preswyl uchel iawn, o'r cam cysyniad i'r camau dylunio, cymeradwyo, adeiladu, arolygu, gorfodi, ardystio, meddiannu a defnyddio terfynol
- Sut mae ymddygiadau rheoli diogelwch adeiladau yn ategu cydymffurfiaeth â'r cod Ymddygiad ar gyfer Arolygwyr Adeiladau Cofrestredig a safonau sefydliadol perthnasol
- Sut mae prosesau asesu cynlluniau ac arolygu, rhyngweithio a chyfathrebu proffesiynol yn cefnogi cydymffurfiaeth â'r rheoliadau adeiladu a diogelwch adeiladau

Meini prawf cymhwysedd lefel 4 – cynhwysfawr

Dealltwriaeth gynhwysfawr o feini prawf lefel 1-3, a hefyd:

- Sut i ddangos sgiliau rheoli diogelwch effeithiol wrth wneud gwaith rheoli adeiladu ar gyfer pob math o adeilad gan gynnwys adeiladau cymhleth/adeiladau preswyl uchel iawn, o'r cam cysyniad i'r camau dylunio, cymeradwyo, adeiladu, arolygu, gorfodi, ardystio, meddiannu a defnyddio terfynol
- Sut i ddefnyddio trefniadau rheoli diogelwch adeiladau er mwyn helpu i gymryd rhan yn effeithiol mewn timau amlddisgyblaethol

Moeseg

DATGANIAD CYMHWYSEDD CYFFREDINOL AR GYFER MOESEG

Cynnal safonau proffesiynol a moesegol uchel wrth gyflawni'r holl weithgareddau rheoli adeiladu.

Trosolwg o gymhwysedd lefel 1 – ymwybyddiaeth o'r canlynol:

- Terminoleg sy'n gysylltiedig â moeseg
- Sut beth yw ymddygiad da ac ymddygiad moesegol

Trosolwg o gymhwysedd lefel 2 – gwerthfawrogiad o'r canlynol:

Gwerthfawrogiad o gynnwys lefel 1, a hefyd:

- Y ffordd y mae ymddygiad moesegol yn rhyngweithio â'r swyddogaeth rheoli adeiladu

Trosolwg o gymhwysedd lefel 3 – dealltwriaeth o'r canlynol:

Dealltwriaeth o gynnwys lefel 1-2, a hefyd:

- Cyfraniad moeseg ac ymddygiadau moesegol at y cod ymddygiad ar gyfer Arolygwyr Adeiladau Cofrestredig, a'r ffordd y maent yn rhyngweithio â'r cod hwnnw, pan gânt eu rhoi ar waith wrth gyflawni'r holl weithgareddau rheoli adeiladu

Trosolwg o gymhwysedd lefel 4 – dealltwriaeth gynhwysfawr o'r canlynol:

Dealltwriaeth gynhwysfawr o gynnwys lefel 1-3, a hefyd:

- Cyfraniad moeseg ac ymddygiadau moesegol at y Cod Ymddygiad ar gyfer Arolygwyr Adeiladau Cofrestredig, a'r ffordd y maent yn rhyngweithio â'r cod hwnnw, pan gânt eu rhoi ar waith wrth gyflawni'r holl weithgareddau rheoli adeiladu; ynghyd â'r gallu i sicrhau bod aelodau o'r tîm rheoli adeiladu/datblygu yn gweithio'n foesegol bob amser.

Moeseg – sgiliau, gwybodaeth, profiad ac ymddygiadau (enghreiffiau dangosol)

Meini prawf cymhwysedd lefel 1 – ymwybyddiaeth

- Adolygiad o derminoleg sy'n gysylltiedig â moeseg ac ymddygiad moesegol a'r disgwyliadau o ran moeseg ac ymddygiadau moesegol o fewn cymdeithas a'r ffordd y bydd cyrff proffesiynol ac eraill yn mesur perfformiad o fewn cymdeithas
- Ymhlith y meysydd i'w hystyried mae rôl moeseg ac ymddygiad moesegol mewn perthynas â'r Cod Ymddygiad ar gyfer Arolygwyr Adeiladau Cofrestredig;
 - Parch at fywyd, y gyfraith, yr amgylchedd a budd y cyhoedd
 - Gonestrwydd ac uniondeb
 - Proffesiynoldeb
 - Cywirdeb a manyldeb
 - Cymhwysedd
 - Parch
 - Datrys anghydfod
 - Cydweithredu
 - Cyfrifoldeb am gyfarwyddyd, ymddygiad a chyfathrebu
 - Cysylltiad â meithrin sgiliau personol

Meini prawf cymhwysedd lefel 2 – gwerthfawrogiad

Gwerthfawrogiad o feini prawf lefel 1, a hefyd:

- Cymhwyso'r hyn a ddysgwyd am ymwybyddiaeth a gwerthfawrogiad o'r ffordd y mae moeseg yn rhyngweithio â'r swyddogaethau rheoli adeiladu, y tu mewn a'r tu allan i'r swyddfa, gan gynnwys swyddogaethau asesu cynlluniau ac arolygu

Meini prawf cymhwysedd lefel 3 – dealltwriaeth

Dealltwriaeth o feini prawf lefel 1-2, a hefyd:

- Cyflawni moeseg ac ymddygiadau moesegol o ddydd i ddydd a rhyngweithio'n broffesiynol â holl aelodau'r tîm datblygu, a hynny wyneb yn wyneb, ar-lein a thrwy gyfryngau electronig eraill, a sicrhau cydymffurfiaeth â'r cod ymddygiad ar gyfer Arolygwyr Adeiladau Cofrestredig

Meini prawf cymhwysedd lefel 4 – cynhwysfawr

Dealltwriaeth gynhwysfawr o feini prawf lefel 1-3, a hefyd:

- Cymhwyso ymddygiadau moesegol, gan gynnwys ymddygiad pobl eraill a gorfodi ymddygiad moesegol fel y bo'n briodol
- Dilyn egwyddorion moesegol er mwyn hyrwyddo canlyniadau diogelwch a dilyn codau neu safonau ymddygiad perthnasol gan barchu amrywiaeth ac egwyddorion cynwysoldeb.

6. Tabl o Ofynion Cymhwysedd Sylfaenol

Nodir isod y lefelau cymhwysedd **sylfaenol** a ddisgwylir o fewn pob un o'r naw maes cymhwysedd ym model y FfCAA yn Adran 3 (a elwir hefyd yn “olwyn y FfCAA”), er mwyn cofrestru ym mhob dosbarth. Mae'n bosibl y bydd gan unigolion lefel gymhwysedd uwch na'r lefel sylfaenol ofynnol. Mewn rhai achosion, mae'n bosibl y bydd lefel uwch na'r lefel sylfaenol yn ofynnol, er enghraifft byddai angen i Arolygydd Adeiladau Dosbarth 4 (Rheolwr) sy'n rheoli arolygwyr adeiladau Dosbarth 2 (Safonol) yn unig feddu ar gymhwysedd lefel 3 ar gyfer y gyfraith a thechnoleg, ond byddai angen i Arolygydd Adeiladau Dosbarth 4 (Rheolwr) sy'n rheoli Arolygwyr Adeiladau Dosbarth 3 (Adeiladau Cymhleth/Adeiladau Preswyl Uchel lawn) feddu ar gymhwysedd lefel 4.

Mae'n bosibl y bydd unigolion yn dangos lefel gymhwysedd uwch na'r lefel sylfaenol sy'n ofynnol mewn maes cymhwysedd penodol, ar gyfer dosbarth cofrestru penodol, ac mae hyn yn ddisgwyliedig ac yn dderbyniol. Ni fydd unigolyn na all gyrraedd y lefelau cymhwysedd sylfaenol gofynnol ym mhob un o'r naw maes cymhwysedd ar gyfer dosbarth cofrestru penodol yn gallu

<u>Maes cymhwysedd</u> <u>Dosbarth Cofrestru</u> ↓	Y Gyfraith	Technoleg	Gwasanaethau Adeiladu	Swyddogaethau a Gweithgareddau	Asesu Cynlluniau	Arolygiadau a Gorfodi	Sgiliau Rheoli a Sgiliau Craidd	Rheoli Diogelwch	Moeseg
Arolygydd Adeiladau Dosbarth 1 (Cyswllt/Cynorthwyol)	1	1	1	1	1	1	1	1	2
Arolygydd Adeiladau Dosbarth 2 (Safonol)	3	3	3	3	3	3	3	3	4
Arolygydd Adeiladau Dosbarth 3 (Adeiladau Cymhleth/Adeiladau Preswyl Uchel lawn)	4	4	4	4	4	4	3	4	4
Arolygydd Adeiladau Dosbarth 4 (Rheolwr)	3	3	3	3	3	3	3	3	4

cofrestru yn y dosbarth hwnnw.